Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

**Cyfarfod Pwyllgor Dethol**
**Dyddiad: 1 Hydref 2025, Amser: 13:30-15:30**
**Lleoliad Hybrid: Teams/SCHTh, Pencadlys yr Heddlu, Caerfyrddin**
**Cyfarfod a gadeiriwyd gan: CHTh Dafydd Llywelyn**

| | |
|---|---|
| **Aelodau** | • Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu (CHTh), Dafydd Llywelyn (Cadeirydd)<br>• Prif Weithredwr, Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu (SCHTh), Carys Morgans<br>• Cyfarwyddwr Comisiynu a Phartneriaeth (SCHTh), Alison Perry<br>• Aelod Annibynnol Panel Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys, Helen Thomas<br>• Aelod o'r Cyd-bwyllgor Archwilio, Caroline Wheeler<br>• Llysgennad Ieuenctid, Bradley Cole (ymunodd drwy Teams)<br>• Aelod o'r Panel Sicrhau Ansawdd / Cynrychiolydd Cynllun Ymweliadau Annibynnol â Dalfeydd |
| **Hefyd yn bresennol** | • Cynghorydd Polisi (SCHTh), Hannah Hyde<br>• Gweithiwr Achos Ansawdd Gwasanaeth (SCHTh), Ellen Jones<br>• Cynghorydd Ymgysylltu (SCHTh), Emily Wheeler<br>• Cynghorydd Polisi (SCHTh), Gwen James |
| **Ymddiheuriadau** | • Aelod o'r Panel Datrysiadau Tu Allan i'r Llys, Davinia Davies |

*Mae'r nodiadau hyn yn rhoi crynodeb o drafodaethau a chamau gweithredu a sefydlwyd.*

## 1. Ymddiheuriadau, cyflwyniadau, ac aelodaeth

Croesawodd CHTh aelodau'r Pwyllgor Dethol, a gwnaed cyflwyniadau.

Ailadroddodd CHTh ddiben adolygiad y Pwyllgor Dethol a nododd fwriad y cyfarfod: Adlewyrchu ar gynnydd hyd yn hyn a thrafod y camau nesaf.

## 2. Gwrandawiad y Pwyllgor Dethol

### Dysgu / adborth a dderbyniwyd

Gofynnwyd i bawb a oedd yn bresennol yn y Gwrandawiad i gwblhau ffurflen werthuso cyn y cyfarfod hwn, a darparwyd trosolwg o'r adborth a gyflwynwyd.

Rhannodd aelodau o'r Pwyllgor Dethol ac chynrychiolwyr o SCHTh eu barn am y Gwrandawiad. Trafodwyd elfennau ymarferol o'r Gwrandawiad, megis trefn yr ystafell ac amseriadau, yn ogystal â'r dystiolaeth a ddarperir gan y tystion.

Ailymwelodd y Pwyllgor Dethol â diben yr ymagwedd hon/adolygiad hwn gan drafod pa un ai a oedd y Gwrandawiad wedi cyflenwi'r hyn a ddisgwyliwyd.

Bydd SCHTh yn ystyried yr holl ddysgu yn fanwl cyn ail adolygiad Pwyllgor Dethol CHTh.

**Cofnodion**
Cytunwyd y byddai'r Cofnodion o'r Gwrandawiad yn cael eu cyhoeddi gan ddilyn ymagwedd gyson i gofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Dethol, h.y. Gwybodaeth lefel uwch.

**Recordio**
Mae angen ystyriaeth bellach o ran sut y defnyddir y recordiad o'r Gwrandawiad.

**Cwestiynau / gwybodaeth sydd eto i ddod**
Cytunwyd na fyddai cwestiynau pellach yn cael eu rhoi gerbron y tystion, na gwybodaeth bellach yn cael ei cheisio, hyd nes bod y Pwyllgor Dethol yn gallu eu cyflwyno gydag adroddiad cryno drafft sy'n nodi canfyddiadau'r adolygiad a'r argymhellion arfaethedig.

## 3. Canfyddiadau Hapsamplu

Ni ystyriodd y Pwyllgor Dethol ganfyddiadau'r gweithgarwch hapsamplu. Bydd y manylion yn cael eu tynnu i mewn i'r adroddiad cryno a'u hatodi fel atodiad.

## 4. Canfyddiadau ymgysylltu

**Galwad Agored am Dystiolaeth**
Derbyniwyd dwy alwad agored am dystiolaeth, gan Wasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Fawrhydi, a oedd wedi'i wahodd i roi tystiolaeth yn y Gwrandawiad i gychwyn, a RAY Ceredigion. Darparwyd trosolwg lefel uwch o'r cyflwyniadau.

**Ymgysylltu â phobl ifainc**
Ni ystyriodd y Pwyllgor Dethol ganfyddiadau'r arolwg yn fanwl, fodd bynnag, fe wnaethant drafod nifer isel yr ymatebion (80), gan dynnu sylw

at ymgysylltu dros gyfnod yr haf, blinder gydag arolygon, a ffurf yr arolwg fel rhesymau posibl.

**Cam gweithredu: Adroddiad ymgysylltu i'w rannu gyda aelodau'r Pwyllgor Dethol.**

Bydd y canfyddiadau o'r alwad agored am dystiolaeth a'r arolwg yn cael eu tynnu i mewn i'r adroddiad cryno a'u hatodi fel atodiadau.

## 5. Y camau nesaf

### Argymhellion arfaethedig

Nododd y gweithgor nifer o feysydd o'r adolygiad ar ba rai y bydd argymhellion yn debygol o ganolbwyntio arnynt. Cafwyd trafodaeth ynghylch yr argymhellion arfaethedig.

### Adroddiad Cryno

Bydd y gweithgor yn ystyried yr holl weithgarwch adolygu hyd yn hyn ac yn llunio adroddiad cryno er ystyriaeth aelodau'r Pwyllgor Dethol.

### Trafodaeth bord gron

Cynigir bod sesiwn bord gron yn cael ei chynnal gyda phartneriaid perthnasol i ddarparu trosolwg o'r adroddiad cryno a thrafod yr argymhellion arfaethedig.

## 6. Unrhyw fusnes arall

Ni chyflwynwyd unrhyw fusnes pellach.